Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2022—Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2021–22

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3549A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan y Bwrdd Iechyd yn rhan o’r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i’r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o’u hadnoddau. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â’r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 10

Atodiadau

Atodiad 1—adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 16

Atodiad 2—ffi archwilio 18

Atodiad 3—archwilio risgiau cyfrifon 19

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio 2022 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Cynhaliwyd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus, roedd cyrff iechyd hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Felly, cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru orau fod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

4 Ceisiais sicrhau nad oedd fy ngwaith yn llesteirio cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Parhawyd i weithio ac ymgysylltu o bell i raddau helaeth fel y bo modd drwy ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuwyd rhywfaint o waith archwilio ar y safle fel y bo'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar ein modd o gyflawni gwaith archwilio, ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Fel yn achos y ddwy flynedd flaenorol, mae cyflawniad fy ngwaith archwilio cyfrifon wedi parhau o bell gan mwyaf. Mae'r llwyddiant wrth ei gyflawni yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Rwyf wedi addasu pwyslais ac ymagwedd fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i alluogi gweithio o bell. Rwyf wedi gwneud sylwadau am sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am ofal a gynlluniwyd. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi sôn am sut mae trefniadau llywodraethu wedi eu haddasu er mwyn ymateb i'r pandemig, a'r effaith y mae'r argyfwng wedi ei chael ar y broses o ddarparu gwasanaethau.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond nid yw wedi ei gwblhau eto.

8 Cyflwyna **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o ymgymryd â'm gwaith, o'u cymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2022.

9 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio cyfrifon a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2022 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr interim a'r Cyfarwyddwr Cyllid interim wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor Archwilio ar 15 Mai 2023. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rwyf yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddaf yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

12 Cyhoeddais farn 'gwir a theg' amodol ar gyfrifon 2021–22 y Bwrdd Iechyd oherwydd na allwn gael tystiolaeth digonol priodol bod gwariant, symiau taladwy a chroniadau penodol yn cael eu datgan a'u cyfrif yn gywir yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Amodais hefyd fy marn ar 'reoleidd-dra' wrth i'r Bwrdd Iechyd fethu unwaith eto â bodloni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd, ac (ynghyd ag wyth corff arall yn y GIG yng Nghymru) gwnaeth wariant afreolaidd yn ystod y flwyddyn wrth gydymffurfio â chyfarwyddyd gan Weinidogion i ariannu rhwymedigaethau treth pensiynau clinigwyr.

13 Ochr yn ochr â'm barn archwilio, cyflwynais adroddiad sylweddol ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd er mwyn tynnu sylw at y materion a nodwyd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau.

14 Tua diwedd 2022, arweiniodd pryderon penodol am gydlynoldeb y bwrdd a'r perthnasoedd gwaith ar lefel uwch imi gynnal adolygiad brys â phwyslais o effeithiolrwydd cyfunol y bwrdd.

15 Disgrifia'r adolygiad hwnnw lefel o gamweithredu yn y Tîm Gweithredol a'r bwrdd ehangach a oedd yn peryglu'n sylfaenol allu'r bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau. Fe'm harweiniwyd gan natur a difrifoldeb fy nghanfyddiadau i gyhoeddi adroddiad

er budd y cyhoedd yn galw am weithredu brys i fynd i'r afael â'r pryderon a nododd fy ngwaith ac i greu bwrdd sy'n fwy cydlynol ac unedig o ran yr heriau sylweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Roedd hefyd yn cydnabod nad oedd y Bwrdd Iechyd yn debygol o allu gwneud y newidiadau sydd eu hangen heb ryw fath o ymyrraeth allanol.

16 Mae fy ngwaith Archwilio Perfformiad arall y Bwrdd Iechyd wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- Mae gwendidau rheoli sylweddol, gan gynnwys y rhai a amlygir yn ein barn archwilio ariannol amodol ar gyfer 2021–22. Mae hyn, ynghyd â chynlluniau annigonol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig, yn cyflwyno heriau ariannol brys a sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.
- bu rhywfaint o gynnydd, ond mae angen i systemau sicrwydd gefnogi gwelliant yn fwy effeithiol ac mae angen rhoi'r model gweithredu newydd ar waith yn llawn, ac mae angen gwneud hynny ar frys.
- er bod rhai agweddau ar drefniadau cynllunio strategol wedi gwella, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal heb gynllun tymor canolig cymeradwy, ac mae angen cynlluniau galluogi tanategol sy'n gyson â'r strategaeth, a cherrig milltir a chanlyniadau clir, ar y strategaeth glinigol newydd.
- mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y mesurau mae wedi eu cyflwyno i gefnogi llesiant y staff yn cael yr effaith a fwriedir. Mae angen gwelliannau o ran y ffordd y darperir adnoddau ar gyfer prosiectau digidol a'r ffordd y cânt eu cyflawni, ac mae angen mynd i'r afael â materion hirsefydlog sylweddol gydag ystad y Bwrdd Iechyd hefyd drwy weithredu'r strategaeth ddiwygiedig.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella ansawdd y llywodraethu, ac mae'n buddsoddi mewn adnoddau sy'n ei gefnogi, gan ad-drefnu'r adnoddau hynny. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella, megis sicrhau bod blaenoriaethau o ansawdd yn adlewyrchu'r risgiau sy'n deillio o'r pwysau gwasanaeth sylweddol presennol a gwella'r broses o ddysgu ar draws y sefydliad.
- Er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol mewn adfer rhestrau aros, mae'r twf sylweddol yn niferoedd y bobl sy'n aros yn debygol o olygu na fydd rhestrau aros yn dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig am flynyddoedd lawer.

17 Rhoddir ystyriaeth bellach i'r canfyddiadau hyn yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

18 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion, a'i lifau arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

19 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2022 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwiliad cyfrifon 2021–22 a manylir ar hyn ynghyd â sut yr aed i'r afael â nhw yn **Atodiad 3—Arddangosyn 4**.

20 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

### Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2021–22

21 Cyhoeddais farn 'gwir a theg' amodol ar gyfrifon 2021–22 y Bwrdd Iechyd oherwydd na allwn gael tystiolaeth digonol priodol bod gwariant, symiau taladwy a chroniadau penodol yn cael eu datgan a'u cyfrif yn gywir yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Cyflwynais hefyd adroddiad sylweddol yn nodi rhagor o fanylion mewn cysylltiad â'r materion hyn.

22 Nododd fy mhrofion archwilio cychwynnol lefelau sylweddol o wallau ac ansicrwydd ynghylch a oedd symiau taladwy a chroniadau o £9.1 miliwn yn bodoli ar 31 Mawrth 2022 ac a ddigwyddodd gwariant o £9.4 miliwn yn ystod y flwyddyn neu a oedd wedi ei gyfrif yn briodol yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Mae'r gwallau a'r ansicrwydd a nodwyd gan fy mhrofion cychwynnol, sef £9.4 miliwn, yn 7.8% o'r sampl a brofwyd, sef £121.2 miliwn.

23 Dywedodd y Bwrdd Iechyd nad oedd yn gallu fy nghefnogi i gynnal unrhyw brofion eraill oherwydd 'adnoddau cyfyngedig yn y tîm cyllid a'r gwaith ychwanegol y bu rhaid iddo ei reoli ers mis Ebrill; yr effaith sylweddol y byddai unrhyw oedi ychwanegol yn ei gael ar Gyfrifon Cryno Llywodraeth Cymru a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a'r goblygiadau yn sgil hynny o ran cynhyrchu Cyfrifon Adnoddau Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r gofyniad i'r tîm cyllid ganolbwyntio ar y Bwrdd Iechyd wrth iddo gyflawni ei amcanion ar gyfer 2022–23'. O ganlyniad i hynny, nid oeddwn yn gallu cwblhau'r profion angenrheidiol eraill i asesu maint llawn y gwall a'r ansicrwydd yn y datganiadau ariannol.

24 Amodais fy marn archwilio ar y sail nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu tystiolaeth archwilio digonol priodol i ddangos yr hyn a ganlyn:

- Symiau taladwy nad oeddent yn rhai'r GIG a chroniadau o £73.2 miliwn yn Nodyn 18 'Masnach a Symiau Taladwy Eraill' a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2022; a

- gwariant o £122.2 miliwn yn Nodyn 3.3 ‘Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol’ a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn neu sydd wedi ei gyfrif yn iawn yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.

25 Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol sawl mater i’r Pwyllgor Archwilio ar 24 Awst 2022. Crynhoa **Arddangosyn 1** faterion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i’r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau’r Archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nododd fy mhrofion archwilio cychwynnol o Nodyn 18 ‘Masnach a symiau taladwy eraill’ lefelau sylweddol o wallau ac ansicrwydd ynghylch a oedd symiau taladwy a chroniadau o £9.1 miliwn yn bodoli ar 31 Mawrth 2022.<br>Nododd fy mhrofion Nodyn 3.3 ‘Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol’ wallau pellach, gwerth £0.3 miliwn (yn ogystal â’r rhai a nodir yn Nodyn 18).<br>Roedd mynegeion a gymhwyswyd i brisiau adeiladau yn cynnwys tanddatganiad o £7.7 miliwn yn ffigurau (cost) y mynegai gydag effeithiau pellach ar feysydd eraill o’r cyfrifon. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Gwnaed nifer o newidiadau i’r cyfrifon. Y mwyaf arwyddocaol oedd newid i Nodyn 11 ‘Eiddo, Peiriannau ac Offer’ mewn cysylltiad â dosbarthu gwariant cyfalaf o £426,000 yn anghywir, fel gwariant refeniw. Effeithiodd yr ailddosbarthiad ar Nodyn 2.2 ‘Perfformiad Adnoddau Cyfalaf’ sy’n datgelu perfformiad y Bwrdd Iechyd o’i gymharu â’i ‘Ddyraniad Adnoddau Cyfalaf’ a bennir gan Lywodraeth Cymru. Heblaw am gynnydd ôl-weithredol yn y dyraniad adnoddau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022, byddai’r Bwrdd Iechyd wedi torri ei ddyraniad adnoddau cyfalaf gwreiddiol ar gyfer 2021–22. |
| Materion arwyddocaol eraill | Yn ogystal â’r diffyg rheolaethau mewnol sylweddol o ran cydnabod y croniadau, y symiau taladwy a’r gwariant y cyfeirir atynt uchod, nododd fy nhîm hefyd fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a’r Bwrdd ar |

| Mater | Sylwadau’r Archwilwyr |
|---|---|
| | gyfer contract sy’n fwy na £1 miliwn, sy’n groes i ofynion Deddf GIG (Cymru) 2006 a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd Iechyd. |

26 Cynhaliais hefyd adolygiad o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Penderfynais fod gwybodaeth gyfuno y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2022 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau’r Trysorlys.

27 Mae fy archwiliad ar wahân o gyfrifon y cronfeydd elusennol (Awyr Las) wedi ei gwblhau, a chyhoeddais farn archwilio diamod arnynt. Ni chododd unrhyw faterion a adroddwyd i’r Ymddiriedolwyr.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

28 Mae’n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â’r awdurdodau sy’n eu rheoli nhw. Mae’n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i dderbyn yr incwm ac i wario’r arian. Mae fy ngwaith yn adolygu’r pwerau hyn ac yn profi er mwyn sicrhau nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i’w derbyn nac i’w hysgwyddo.

29 Amodais fy marn ar reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd oherwydd ei fod wedi mynd y tu hwnt i’w derfyn adnoddau drwy wario £37.9 miliwn yn fwy na’r swm yr awdurdodwyd iddo ei wario yn ystod y cyfnod o dair blynedd rhwng 2019–2020 a 2021–2022. Roedd y gwariant hwn yn gyfystyr â gwariant afreolaidd.

30 Cynhwysodd y Bwrdd Iechyd ddarpariaeth o £2.3 miliwn yn ymwneud ag amcangyfrif o atebolrwydd y Bwrdd Iechyd sy’n deillio o Gyfarwyddyd Gweinidogion dyddiedig 18 Rhagfyr 2019 ar bensiynau uwch-glinigwyr y GIG. Yn fy marn i, mae’r gwariant hwn yn afreolaidd ac yn berthnasol yn ôl ei natur.

31 Mae fy adroddiad sylweddol hefyd yn nodi rhagor o fanylion mewn cysylltiad â’r materion hyn.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

32 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodaeth o ran y defnydd o adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad y Bwrdd Iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Adolygu Effeithiolrwydd y Bwrdd oherwydd pryderon cynyddol a nodwyd yn chwe mis olaf y flwyddyn.
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus.
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd.
- cynnal adolygiad lefel uchel o sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal a gynlluniwyd.

33 Nodir isod fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn.

## Adolygu Effeithiolrwydd y Bwrdd

34 Roedd fy ngwaith yn ystyried i ba raddau y mae'r bwrdd yn gweithio'n effeithiol ac yn gydlynol fel tîm i gyflawni ei rôl a'i swyddogaethau, gan gynnwys darparu'r arweinyddiaeth ar y cyd sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r heriau niferus y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu.

35 Canfûm fod nifer o faterion sy'n peri pryder sydd, ar y cyd, yn peryglu gallu'r bwrdd yn sylfaenol i weithio'n effeithiol ac mewn modd integredig i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

36 Yn ganolog i'n pryderon, ceir carfanau clir a dwfn sy'n bodoli yn y Tîm Gweithredol ac, i raddau, yn y bwrdd ehangach. Mae'r camweithredu yn y Tîm Gweithredol yn gwbl glir i'r Aelodau Annibynnol ar y bwrdd. Mae hyn, ynghyd â phryderon am afael y Tîm Gweithredol ar heriau gweithredol ac ansawdd y sicrwydd, wedi lleihau ymddiriedaeth a hyder yr Aelodau Annibynnol yn y Tîm Gweithredol.

37 Yn wyneb pryderon cynyddol am yr anallu i fynd i'r afael â pherfformiad, ansawdd, a heriau diogelwch gwasanaethau hirsefydlog, bu enghreifftiau o graffu cyhoeddus heriol iawn ar y weithrediaeth gan rai Aelodau Annibynnol. Mae'r rhain wedi cael effaith andwyol ar berthnasau gwaith ac ymarferoldeb yn y bwrdd, gan wreiddio rhaniadau pellach rhwng y Tîm Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol. I raddau helaeth, mae gweithgareddau datblygu'r bwrdd wedi methu â datrys y tensiynau hyn a thensiynau eraill a hwyluso gweithio bwrdd mwy integredig ac effeithiol.

38 Mae trosiant a newidiadau portffolio yn y Tîm Gweithredol wedi effeithio ar barhad yr arweinyddiaeth a chyflymder y newid. Unwaith eto, mae'r sefydliad yn canfod ei

hun heb Brif Weithredwr sylweddol ac â nifer o swyddi gweithredol eraill sydd hefyd yn cael eu llenwi dros dro ar hyn o bryd. Mae dibyniaeth drom ar swyddi interim yn y strwythur uwch-reoli ehangach yn dal yn amlwg ac yn tynnu sylw at anawsterau parhaus o ran sicrhau'r capasiti uwch-arweinwyr sydd ei angen ar y Bwrdd Iechyd.

39 Mae angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r pryderon a nodir yn yr adroddiad hwn ac i greu amgylchedd bwrdd a Thîm Gweithredol sy'n fwy cydlynol ac unedig o amgylch yr heriau sylweddol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

## Asesiad strwythuredig

40 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 yn ogystal â cheisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth.

41 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar systemau sicrwydd y sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheoli ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

### Trefniadau llywodraethu

42 Oherwydd imi gynnal Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd ar wahân eleni, roedd fy adolygiad o drefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n benodol ar systemau sicrwydd allweddol. Canfu fy ngwaith, er bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu i gryfhau rhai systemau sicrwydd, fod gwendidau sylweddol yn parhau. Gall hyn arwain at ddiffyg sicrwydd bod risgiau a heriau perfformiad sylweddol a pharhaus yn cael sylw a bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

43 Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adnewyddu ei strategaeth risg ar gyfer 2022–25 a'i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Noda ein hadolygiad fod y risgiau yn y Fframwaith yn adlewyrchu'r prif heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae llawer o'r risgiau yn rhai hirsefydlog, sy'n nodi nad yw'r dull rheoli risgiau a'r camau lliniaru yn cael yr effaith a ddymunir. Yn yr un modd, mae angen sicrhau bod adroddiadau perfformiad i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn rhoi pwyslais digonol ar effaith camau gwella. Canfuom hefyd fod adrodd ar gynnydd argymhellion y Pwyllgor Archwilio ar lefel uchel, gan ddarparu manylion cyfyngedig, yn enwedig ar argymhellion yr ystyrir eu bod wedi eu cwblhau.

44 Yn gyffredinol, mae gan y Bwrdd Iechyd ddiwylliant adrodd agored mewn cysylltiad â digwyddiadau. Fodd bynnag, mae'r gwaith a wnaed gan Uned Cyflawni GIG Cymru wedi nodi lle i ddadansoddi data tueddiadau'r digwyddiadau y gellir eu hadrodd yn genedlaethol yn well, ac i adeiladu ar wersi a ddysgir yn fewnol ac oddi wrth eraill. Canfuom hefyd fod angen sicrhau bod prosesau ar waith i atal

camadrodd am nifer y cwynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am y Bwrdd Iechyd.

## Trefniadau cynllunio strategol

45 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- gweledigaeth ac amcanion strategol y sefydliad;
- Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- trefniadau cynllunio y sefydliad;
- trefniadau'r sefydliad ar gyfer gweithredu a monitro'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

46 Canfu fy ngwaith, er bod rhai agweddau ar drefniadau cynllunio strategol wedi gwella, fod y Bwrdd Iechyd yn dal heb gynllun tymor canolig cymeradwy, a bod angen cynlluniau galluogi tanategol sy'n gyson â'r strategaeth, a cherrig milltir a chanlyniadau clir, ar y strategaeth glinigol newydd.

47 Cadarnhaol yw nodi bod y Bwrdd wedi cymeradwyo ei Strategaeth Glinigol newydd ar gyfer 2022–32 ym mis Awst 2022. Fodd bynnag, mae'r strategaeth glinigol yn parhau i fod yn ddogfen lefel uchel iawn, ac nid yw'n glir sut bydd y Bwrdd Iechyd yn monitro'r cynnydd ac yn barnu ei lwyddiant. Er bod trefniadau cynllunio tymor canolig y Bwrdd Iechyd wedi gwella ar y cyfan, nid oedd yn gallu llunio Cynllun cymeradwy ar gyfer 2022–2025 ac roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun blynyddol yn hytrach na chynllun tair blynedd ar gyfer 2023–24 ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, a gohiriwyd y datblygiad oherwydd ffactorau mewnol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill gan gynnwys digidol, pobl ac ystadau. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddo gymryd camau i sicrhau eu bod yn gwbl gyson â'r strategaeth glinigol a'u bod yn manteisio ar gyfleoedd gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth.

## Rheoli adnoddau ariannol

48 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- trefniadau ar gyfer bodloni amcanion ariannol allweddol;
- rheolaethau ariannol;
- trefniadau ar gyfer adrodd a monitro'r perfformiad ariannol.

49 Canfu fy ngwaith fod gwendidau rheoli sylweddol, gan gynnwys y rhai a amlygir yn ein barn archwilio ariannol amodol ar gyfer 2021–22. Mae hyn, ynghyd â chynlluniau annigonol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig, yn cyflwyno heriau ariannol brys a sylweddol i'r Bwrdd Iechyd.

50 Nododd ein harchwiliad o gyfrifon 2021–22 y Bwrdd Iechyd wallau cyfrifyddu a gwendidau sylweddol, ac yn sgil hyn rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn

amodol o ran 'gwir a theg' a 'rheoleidd-dra'. Mae'r defnydd helaeth o gamau tendr sengl yn Betsi Cadwaladr yn codi pryderon sylweddol am y trefniadau cynllunio a rheoli ariannol yn y Bwrdd Iechyd.

51 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cydbwyso'r sefyllfa ariannol ym mlwyddyn ariannol 2021–22, methodd y Bwrdd Iechyd â mantoli'r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd, gan adrodd diffyg o £37.9 miliwn ar ddiwedd 2021–22. Digwyddodd hyn oherwydd diffygion diwedd y flwyddyn a ddygwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol. Roedd y cynllun ariannol ar gyfer 2022–23 yn cynnwys rhagdybiaethau cyllideb rhesymol, fodd bynnag, cynnydd araf a wnaeth y Bwrdd Iechyd wrth gyflawni ei darged arbedion o £35 miliwn ar gyfer 2022–23. Mae'r cynlluniau arbedion ac adfer ariannol ar gyfer 2023–24 yn annigonol ar hyn o bryd ac maent yn datblygu yn araf. O ganlyniad i hynny, mae risg o ddiffyg sylfaenol sylweddol. Bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu'n sylweddol os bydd dyraniad y cyllid ymyrryd ychwanegol wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru, sef £82 miliwn, yn dod i ben ar ddiwedd 2023–24. Mae angen dull cryfach ar gyfer adfer ariannol, canolbwyntio ar arbedion cylchol, darparu gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn effeithiol ac, o bosibl, rhai penderfyniadau dadfuddsoddi anodd.

## Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

52 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- trefniadau ar gyfer cefnogi llesiant y staff;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill.

53 Canfu fy ngwaith fod angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y mesurau mae wedi eu cyflwyno i gefnogi llesiant y staff yn cael yr effaith a fwriedir. Mae angen gwelliannau o ran y ffordd y darperir adnoddau ar gyfer prosiectau digidol a'r ffordd y cânt eu cyflawni, ac mae angen mynd i'r afael â materion hirsefydlog gydag ystad y Bwrdd Iechyd hefyd.

54 Er bod gan y Bwrdd Iechyd wasanaethau cymorth llesiant staff amrywiol ar waith, mae angen mwy o bwyslais ar werthuso eu heffaith er mwyn llywio unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o gymharu â'i strategaeth ddigidol a'i gynlluniau dilynol. Fodd bynnag, mae materion darparu adnoddau hirsefydlog yn rhwystro'r hyn a gyflawnir, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae ystad y Bwrdd Iechyd hefyd yn peri pryder oherwydd y cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael, sy'n golygu y gallai sawl rhaglen allweddol fod 'mewn perygl' ac mae'n bosibl y bydd angen gwaith blaenoriaethu pellach. Mae'r strategaeth ystadau ddiweddaredig yn nodi'n glir raddau yr her a'r risgiau. Yn awr, bydd angen goruchwyliaeth barhaus â phwyslais ar y graddau y mae'r strategaeth hon yn mynd i'r afael â risgiau'r ystadau ac yn cefnogi modelau gofal newydd.

## Trefniadau llywodraethu ansawdd

55 Archwiliodd fy adolygiad a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar y dull gweithredol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd, y diwylliant ac ymddygiad sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifau gwybodaeth ac adrodd.

56 Ar adeg fy adolygiad, canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella ansawdd y llywodraethu, ac yn buddsoddi mewn adnoddau sy'n ei gefnogi, gan ad-drefnu'r adnoddau hynny. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella, megis sicrhau bod blaenoriaethau o ansawdd yn adlewyrchu'r risgiau sy'n deillio o'r pwysau gwasanaeth sylweddol presennol a gwella'r broses o ddysgu ar draws y sefydliad.

57 Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn gwella ansawdd drwy ei raglen Cryfach Gyda'n Gilydd. Mae gan y Bwrdd Iechyd adnoddau corfforaethol a gweithredol digonol i gefnogi llywodraethu o ansawdd y mae'n ei ad-drefnu er mwyn osgoi gweithio heb ymwneud ag eraill a dyblygu. Mae'r Bwrdd yn cael lefel dda o wybodaeth i graffu ar y niwed sy'n deillio o COVID-19 ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella dangosfyrddau o ansawdd.

58 Er hynny, mae cyfleoedd i wella. Mae angen canlyniadau clir y gellir eu monitro ar Strategaeth Gwella Ansawdd newydd y Bwrdd Iechyd. Er bod trefniadau rheoli risgiau yn gwella, canfuom amrywiaeth mewn adnoddau rheoli risgiau a hyfforddiant ar lefel weithredol. Canfuom hefyd fod angen i'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio ei adnoddau yn well ar gyfer gweithgareddau gwella ansawdd megis archwilio clinigol ac adolygiadau marwolaethau a sicrhau ei fod yn dangos effaith a'r hyn a ddysgir o'r gweithgareddau hyn. Dywedodd cyfran gymharol uchel o staff y Bwrdd Iechyd a ymatebodd i arolwg staff GIG Cymru eu bod wedi profi achosion o fwlio, aflonyddu neu gam-drin. O ystyried bod llai na hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y sefydliad yn cymryd camau effeithiol pan fo hynny'n digwydd, mae angen systemau gwell ar gyfer rheoli a mynd i'r afael â'r pryderon hyn, a dysgu oddi wrthynt, ar y Bwrdd Iechyd. Hefyd, mae angen pwyslais cryfach ar fesurau ansawdd lleol ar y Bwrdd Iechyd, er mwyn rhoi sicrwydd ar ansawdd ehangach y gwasanaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu darparu ac yn eu comisiynu.

## Mynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal a gynlluniwyd yng Nghymru

59 Ym mis Mai 2022, cyhoeddais adroddiad yn nodi graddau'r ôl-groniad gofal a gynlluniwyd yn GIG Cymru, a'r camau allweddol y mae angen i'r system eu cymryd i ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Tynna fy adroddiad sylw at dwf parhaus cyffredinol mewn niferoedd rhestrau aros o fis i fis, gan nodi bod cyfradd y twf yn arafu. Mae'n nodi hefyd y byddai'r gostyngiad anochel mewn atgyfeiriadau a welwyd yn ystod y pandemig yn debygol o arwain at y galw cudd hwn yn dod yn ôl i'r system yn y pen draw. O ystyried y ffactorau hyn a ffactorau eraill,

amcangyfrifodd fy ngwaith efallai y bydd cyhyd â saith mlynedd cyn i niferoedd cyffredinol y rhestrau aros yng Nghymru ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig.

60 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer gofal a gynlluniwyd, gyda cherrig milltir allweddol i fyrddau iechyd eu cyflawni, gan gynnwys pwyslais cychwynnol ar y cleifion hynny sy'n wynebu cyfnodau aros hir iawn. Fodd bynnag, mae'r cerrig milltir hynny eisoes yn profi'n anodd eu cyflawni.

61 Yn unol â'r camau allweddol a nodaf yn fy adroddiad, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd ag eraill yng Nghymru, feithrin a gwarchod capasiti ar gyfer gofal a gynlluniwyd, a pharhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

62 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau hefyd ei fod yn rheoli'n weithredol y risgiau clinigol i gleifion sy'n wynebu arosiadau hir am driniaeth, a gwella ei systemau ar gyfer cyfathrebu â chleifion i'w helpu i reoli eu cyflwr tra eu bod yn aros ac yn rhoi gwybod iddynt beth i'w wneud os bydd eu cyflwr yn gwaethygu.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r bwrdd iechyd yn 2022–23.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | Awst 2022 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Awst 2022 |
| Barn am y cronfeydd Elusennol—Awyr Las | Ionawr 2023 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygu Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Mawrth 2022 |
| Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru | Mai 2022 |
| Adolygu Effeithiolrwydd y Bwrdd | Chwefror 2023 |
| Asesiad Strwythuredig 2022 | Chwefror 2023 |
| **Arall** | |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| Cynllun Archwilio 2022 | Ebrill 2022 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2022 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan. Mae'r astudiaethau hyn yn arfer yn cael eu cyllido drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus er mwyn gefnogi ei waith o graffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Gofal heb ei drefnu:<br>• llif cleifion allan o'r ysbyty<br>• mynediad at wasanaethau gofal heb ei drefnu | Ebrill 2023<br>Awst 2023 |
| Cleifion allanol dilynol | Ebrill 2023 |
| Cynllunio'r gweithlu | Mehefin 2023 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2022 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £423,000 (heb gynnwys TAW). Ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yw £537,902. Mae'r cynnydd oherwydd gwaith ychwanegol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

- Archwilio cyfrifon 2021–22—Roedd angen y gwaith ychwanegol hwn o ganlyniad i faterion sylweddol a nodwyd yn ystod yr Archwiliad. Mae'r gwaith ychwanegol yn cyfateb i £78,902.
- Adolygu effeithiolrwydd y Bwrdd—Cwblheais adolygiad ar effeithiolrwydd y bwrdd oherwydd pryderon sylweddol a nodwyd ym mis Tachwedd. Er ei fod yn disodli adolygiad archwilio presennol a gynhwyswyd eisoes yn y cynllun, roedd y gwaith hwn yn gofyn am fwy o fewnbwn adnoddau a chymysgedd sgiliau a phrofiad uwch. Mae'r tâl ychwanegol am y gwaith hwn yn cyfateb i £36,000.

# Atodiad 3

## Archwilio risgiau cyfrifon

**Arddangosyn 4: archwilio risgiau cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2022 yn nodi'r risgiau ar gyfer archwilio cyfrifon 2021–22 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. O ganlyniad i natur anrhagweladwy y gallai'r gwrth-wneud hyn ddigwydd, ystyrir ei bod yn risg arwyddocaol [ISA 240.31–33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb yr wybodaeth yn y cyfnodolion a newidiadau eraill a wneir wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• archwilio amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarnau; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Ar sail sampl, profodd fy nhîm yr wybodaeth yn y cyfnodolion ac amcangyfrifon cyfrifyddu ac ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth bod y rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau.<br>Fel y nodir ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, gwnaethom nodi gwallau yn y symiau taladwy a'r croniadau.<br>Nid oedd fy nhîm yn gallu meintioli cyfanswm y gwallau yn y cyfrifon a chyflwyno barn archwilio amodol. |
| Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, ac o'r herwydd fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.26–27]. | Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried cyflawnrwydd incwm amrywiol. | Yn rhan o'r profion archwilio, gwnaeth fy nhîm waith er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch cyflawnrwydd incwm amrywiol, gan gynnwys cadarnhau trydydd partïon. Roedd fy nhîm yn fodlon ei fod yn rhydd o wallau perthnasol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll mewn gwariant, ac o’r herwydd fe’i hystyrir yn risg sylweddol [Nodyn Ymarfer 10]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi’n sylweddol yr holl feysydd perthnasol ar gyfer gwariant cyflog a gwariant nad yw’n wariant cyflog;<br>• adolygu’r sail croniadau ar gyfer unrhyw ragfarn wrth amcangyfrif;<br>• adolygu’r torbwynt gwariant ar ddiwedd y flwyddyn; ac<br>• adolygu sail y darpariaethau newydd a’r cynnydd yn lefelau’r ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn. | Profodd fy nhîm yr wybodaeth yn y cyfnodolion a sampl o amcangyfrifon cyfrifyddu.<br>Fel y nodir ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, gwnaethom nodi gwallau yn y symiau taladwy, y croniadau a’r gwariant.<br>Nid oedd fy nhîm yn gallu meintioli cyfanswm y gwallau yn y cyfrifon a chyflwyno barn archwilio amodol. |
| Er bod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn mantoli’r cyfrifol yn 2021–22, rhagwelir y bydd yn methu unwaith eto â chyflawni ei ddyletswydd ariannol gyntaf o fantoli’r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd.<br>Pan fyddwch yn methu’r ddyletswydd ariannol hon, byddaf yn cyflwyno | Bydd fy nhîm archwilio yn canolbwyntio eu profion ar feysydd o’r datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn wrth lunio adroddiadau. | Cynhaliodd fy nhîm amrywiaeth o waith archwilio i roi sicrwydd dros y risg o ragfarn. Roedd hyn yn cynnwys:<br>• proses fanwl o brofi samplau o drafodiadau y naill ochr o ddiwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Canolbwyntiwyd |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol sy'n tynnu sylw at y methiant ac yn cymhwyso eich barn rheoleidd-dra.<br>Mae'r pwysau ariannol yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon y rheolwyr fod yn rhagfarnllyd er mwyn bodloni'r ddyletswydd ariannol. | | hyn ar y meysydd a oedd yn peri'r risg fwyaf.<br>• sicrhau bod amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu paratoi ar sail resymol a'u bod yn cael eu hategu gan ddyfarniadau cyfrifyddu priodol.<br>Nid oedd fy nhîm yn gallu bodloni ei hun i gael sicrwydd bod y cyfrifon yn rhydd o wallau perthnasol a chyhoeddwyd barn archwilio amodol. |
| Er bod cyfyngiadau COVID-19 bellach wedi'u dileu, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff a gweithio o bell a allai effeithio ar baratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon.<br>Mae risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol gael eu cyfaddawdu, a fyddai'n arwain at ragor o achosion o wallau. Gallai trefniadau monitro ansawdd gael eu cyfaddawdu oherwydd materion amseru a/neu'r adnoddau sydd ar gael. | Byddaf yn trafod eich proses cau cyfrifon a'ch trefniadau monitro ansawdd gyda'r tîm paratoi cyfrifon ac yn gwneud trefniadau i fonitro'r broses o baratoi cyfrifon. Byddaf yn helpu i nodi meysydd lle bo bylchau yn y trefniadau. | Gwnaeth fy nhîm gadw mewn cysylltiad cyson â'r Tîm Cyllid i ddeall y broses o baratoi cyfrifon, ac unrhyw newidiadau a wnaed i'r broses hon oherwydd pandemig COVID-19. |
| Mae gweithredu menter 'cynllun sy'n talu' mewn cysylltiad â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol ar y gweill. Y llynedd, cynhwysais baragraff | Byddaf yn adolygu'r dystiolaeth flwyddyn yn ddiweddarach, ynghylch y nifer sy'n manteisio ar y cynllun a'r angen am ddarpariaeth, a'r | Gwnaethom fodloni ein hunain bod y ddarpariaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn briodol.<br>Mae'r farn rheoleidd-dra wedi yn amodol gan fod y gwariant |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Pwyslais ar Fater yn y farn archwilio, gan dynnu sylw at eich datgeliad o'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol.<br>Bydd ceisiadau ar gyfer y cynllun yn cau ar 31 Mawrth 2022, ac os gwneir unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn, byddwn yn ei ystyried yn afreolaidd, gan ei fod yn groes i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. | effaith ganlyniadol ar y farn rheoleidd-dra. | hwn yn cael ei ystyried yn afreolaidd. |
| Mae rhagor o ffrydiau ariannu a gwariant o hyd yn 2021–22 ar gyfer ymdrin â phandemig COVID-19. Gallai'r rhain gael effaith sylweddol ar y risgiau o gamddatganiad perthnasol a siâp a dull ein harchwiliad. Mae enghreifftiau o faterion yn cynnwys cyfrif am ddatgomisiynu ysbyty maes a'u costau cysylltiedig; risgiau twyll, gwallau a rheoleidd-dra y gwariant ychwanegol; prisio (gan gynnwys darfodiad) stocrestr diwedd y flwyddyn gan gynnwys cyfarpar diogelu personol; ac amcangyfrif balansau gwyliau blynyddol. | Byddaf yn nodi'r materion allweddol a'r risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio ein gwaith i gael y sicrwydd sydd ei angen arnom ar gyfer ein harchwiliad. | Cynhaliodd fy nhîm amrywiaeth o waith archwilio i nodi'r holl ffrydiau cyllid a gwariant ychwanegol a ddisgwylir yn y cyfrifon drwy gysylltu â'r Tîm Cyllid a Llywodraeth Cymru. Darparwyd canllawiau canolog i helpu i archwilio'r maes cymhleth hwn. Ni nodwyd unrhyw broblemau o'r gwaith a gwblhawyd. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Gohiriwyd cyflwyniad Lesoedd Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 tan 1 Ebrill 2022. Efallai y bydd angen cryn waith i nodi lesoedd a gallai argyfwng cenedlaethol COVID-19 beri risgiau gweithredu ychwanegol. Bydd angen i gyfrifon 2021–22 ddatgelu'r effaith bosibl yn sgil gweithredu'r safon. | Byddaf yn adolygu cyflawnder a chywirdeb y datgeliadau. | O ganlyniad i bandemig COVID-19, gohiriwyd gweithrediad Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 tan 2022–23. Bydd fy nhîm yn ymgymryd â'r gwaith hwn y flwyddyn nesaf.<br>Fodd bynnag, gwnaeth fy nhîm gynnal trafodaethau rhagarweiniol ar gynnydd parodrwydd Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 ac ni nodwyd unrhyw faterion. |
| Mae datgelu trafodiadau partïon cysylltiedig yn bwysig oherwydd bod y trafodiadau hyn yn nodi perthnasau a allai atal corff rhag dilyn ei fuddiannau ar wahân yn berthnasol neu ganiatáu i'r corff atal parti arall rhag dilyn ei fuddiannau yn annibynnol.<br>Nodais drafodiadau partïon cysylltiedig yn berthnasol i'r cyfrifon oherwydd y gallant ddarparu lle i ystumio gwybodaeth ariannol a/neu guddio sylwedd trafodiadau.<br>Yn flaenorol, nodais wendidau yn systemau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer nodi a chofnodi datganiadau o fuddiannau ar gyfer y partïon cysylltiedig hynny y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu a yw'r holl Ddatganiadau o Fuddiannau gofynnol wedi eu cwblhau; ac<br>• adolygu cynnwys pob datganiad a sicrhau bod gwybodaeth wedi ei chofnodi'n gywir yn systemau'r Bwrdd Iechyd a'r datganiadau ariannol. | Cynhaliodd fy nhîm waith i gadarnhau'r Datganiadau o Fuddiannau gofynnol a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd ac i gadarnhau bod y gwaith o ddatgelu trafodiadau cysylltiedig y partïon wedi ei gwblhau.<br>Ni nodwyd unrhyw broblemau o'r gwaith a gwblhawyd. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| datganiadau ariannol a rhoddais wybod i chi am hyn yn ein hadroddiad Archwilio Cyfrifon 2020–21. | | |
| Mae'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys datgeliadau pwysig sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac yn ôl safonau cyfrifyddu.<br>Noda ein hadolygiad o'r datgeliadau yn Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2020–21 faterion gyda chyflawnder a chywirdeb yr wybodaeth a adroddwyd. Cadarnhaodd trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd fod hyn oherwydd nad oedd gan y swyddog a oedd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad wybodaeth gyflawn yn ymwneud â chyflogau uwch-swyddogion.<br>Argymhellais yn flaenorol fod angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y swyddog sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn sefyllfa briodol i ddeall y gofynion datgelu, bod ganddo allu llwyr i gael gafael ar yr holl | Bydd fy nhîm archwilio yn ymgymryd â rhywfaint o waith cynnar i ddeall y broses o goladu gwybodaeth i gefnogi'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn dwyn unrhyw bryderon i sylw yr uwch-reolwyr. | Ni nododd fy nhîm archwilio unrhyw faterion wrth baratoi'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2021–22. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| wybodaeth sy'n berthnasol i'w baratoi, ei fod yn gallu darparu'r dystiolaeth archwilio angenrheidiol ac yn gallu mynd i'r afael yn uniongyrchol ag unrhyw ymholiadau archwilio sy'n codi. | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.